



Cerdded Ymhellach, Dringo'n Uwch  
**2016-2021 (MEDI)**

Walk Further, Climb Higher  
**2016-2021 (SEPTEMBER)**





Published by Mountain Training Cymru  
Siabod Cottage, Capel Curig, LL24 0ES  
**T** 01690 720 272  
**E** [bryn@mountain-training.org](mailto:bryn@mountain-training.org)  
**W** [www.mountain-training.org](http://www.mountain-training.org)

Designed by: [www.dragondesignwales.com](http://www.dragondesignwales.com)

# CYNNWYS

## CONTENTS

1.	<b>Rhagair</b> <b>Forward</b> .....	3
2.	<b>Crynodeb Gweithredol</b> <b>Executive Summary</b> .....	4
3.	<b>Bwrdd Mountain Training Cymru</b> <b>The Mountain Training Cymru Board</b> .....	7
4.	<b>Gweithio gyda phartneriaid</b> <b>Working with partners</b> .....	8
5.	<b>Cydweithrediad</b> <b>Collaboration</b> .....	11
6.	<b>Llywodraethu'r Bwrdd</b> <b>Board Governance</b> .....	12
7.	<b>Ein Model Hyfforddiant</b> <b>Our Training Model</b> .....	14
8.	<b>Datblygiadau Arfaethedig: Cerdded</b> <b>Proposed Developments: Walking</b> .....	16
9.	<b>Datblygiadau Arfaethedig: Dringo Creigiau</b> <b>Proposed Developments: Rock Climbing</b> .....	18





# 1. RHAGAIR • FORWARD

Diben y strategaeth hon yw datgan dyheadau Mountain Training Cymru a rhoi amlinelliad o'r agenda deinamig ar gyfer dylanwadu ar y ddarpariaeth cerdded, dringo creigiau a mynydda yng Nghymru, a hynny mewn cydweithrediad â byrddau cenedlaethol eraill Mountain Training, drwy hyfforddi arweinwyr a hyfforddwyr o safon uchel sy'n gallu ysbrydoli eraill.

The purpose of this strategy is to state Mountain Training Cymru's aspirations and outline a dynamic agenda to influence walking, rock climbing and mountaineering provision within Wales in conjunction with the other national Mountain Training boards, by training high quality leaders and instructors who can inspire others.



## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL EXECUTIVE SUMMARY

Bydd Mountain Training Cymru yn gweithio'n agos drwy'r cyfnod hwn gyda Mountain Training UK a byrddau cenedlaethol eraill Mountain Training, sydd wedi bod yn datblygu arweinwyr cymwysterau a hyfforddiant ar y cyd ar lefel genedlaethol ers 1964.

Mountain Training Cymru will work closely throughout this period with Mountain Training UK and the other national Mountain Training boards, who have collectively been developing qualifications and training leaders on a national basis since 1964.

### EIN CENHADAETH

Ein cenhadaeth yw cyflawni rhagoriaeth mewn hyfforddiant sgiliau a gwobrau arweinyddiaeth ym meysydd cerdded, dringo creigiau a mynyddoedd ar hyd a lled Cymru ar raddfa fawr drwy sicrhau ystod o gymwysterau i hyfforddwyr ac arweinwyr a fydd yn helpu mwy na 100,000 o bobl i gyfranogi yn y gweithgareddau hyn bob blwyddyn.

### OUR MISSION

Our mission is to achieve excellence in skills training and leadership awards in walking, rock climbing and mountaineering across Wales on a huge scale by having a range of qualifications for coaches and leaders which will help over 100,000 people each year participate in these activities.

### EIN GWELEDIGAETH

Ein gweledigaeth yw cynyddu'r nifer o bobl sy'n cyfranogi mewn cerdded, dringo creigiau a mynydda i lefel uwch nag erioed o'r blaen, a sicrhau Cymru actif, iach a chynhwysol, lle bydd dylanwad ein hyfforddwyr a'n harweinwyr yn darparu llwyfan cyffredin ar gyfer cyfranogi, addysg a chyflawniad.

### OUR VISION

Our vision is to take walking, rock climbing and mountaineering activities to an all-time high, and achieve an active, healthy and inclusive Wales where the influence of our coaches and leaders will provide a common platform for participation, education and achievement.

### EIN DYHEADAU AR GYFER 2016 - 2021

1. Rydym yn ymgeisio bod yn arloesol a chynhwysol wrth ddatblygu ein cynlluniau er mwyn sicrhau cyfranogiad gydol oes ein hymgeiswyr a dileu'r rhwystrau at gyfranogi.

2. Rydym yn ymgeisio cael rhwydwaith ffyniannus o ddarparwyr cysiau ar hyd a lled Cymru, a fydd yn darparu rhagoriaeth o safon fyd-eang wrth ddarpariaeth hyfforddiant sgiliau a chymwysterau arweinyddiaeth ym meysydd cerdded, dringo creigiau a mynydda.

### OUR ASPIRATIONS FOR 2016 - 2021

1. We aspire to be innovative and inclusive in the development of our schemes to retain candidates in life-long participation and to break down barriers to participation.

2. We aspire to have a thriving network of course providers across Wales who will deliver world-class excellence in the provision of skills training and leadership qualifications in walking, rock climbing and mountaineering.

## BYDD Y DYHEADAU HYN YN CAEL EU CYFLAWNI DRWY:

cynlluniau hyfforddi o ansawdd hygyrch ac uchel.  
Rhwydwaith egnïol o ddarparwyr cyrsiau ar draws Cymru.

## THESE ASPIRATIONS WILL BE ACHIEVED THROUGH:

Accessible and high quality training schemes.  
A vibrant network of course providers across Wales.

## MAE EIN GWELEDIGAETH A'N DYHEADAU WEDI'U HATEGU GAN EIN DIBEN CYFFREDINOL OUR VISION AND ASPIRATIONS ARE UNDERPINNED BY OUR OVERALL PURPOSE

- **Diogelwch** – cynnal safonau diogelwch a rhannu arfer da ymysg y gymuned.
- **Cyflawni** – cynnig ystod o gynlluniau o safon sy'n cynnal enw da.
- **Boddhaus** – cydweithio gyda'r sector gwirfoddol sy'n ymgysylltu'n rheolaidd gyda'n gweithgareddau.
- **Amgylchedd** – hybu a diogelu'r amgylchedd naturiol yr ydym yn ei ddefnyddio.
- **Partneriaeth** – gweithio ar y cyd gydag aelod sefydliadau ein bwrdd ar unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.
  
- **Safety** – maintaining safety standards and disseminating good practice among the community.
- **Achieving** – having a range of quality schemes which uphold a strong reputation.
- **Rewarding** – collaboration with the volunteer sector who regularly engage with our activities.
- **Environment** – to promote and to protect the natural environment which we use.
- **Partnership** – to work collaboratively with our board member organisations on any future development.







## 3. BWRDD MOUNTAIN TRAINING CYMRU THE MOUNTAIN TRAINING CYMRU BOARD

Mae Mountain Training Cymru yn ymfalchïo bod ganddynt gynrychiolaeth gref ar y bwrdd o blith pob un o'r prif randdeiliaid yn y sector awyr agored yng Nghymru. Mae'r sefydliadau a'r unigolion hyn yn cyfrannu at y gwaith o gynnal a datblygu bwrdd Mountain Training Cymru. Yn ystod y 5 mlynedd nesaf, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd pellach i alluogi'r sefydliadau hyn i weithio'n agosach fyth gyda ni i weithredu ein gweledigaeth gyffredin.

Mountain Training Cymru is proud to have strong board representation from all the major stakeholders within the outdoor sector of Wales. These organisations and individuals contribute to the running and the development of the Mountain Training Cymru board. Over the next 5 years we will continue to seek further opportunities to enable these organisations to work even more closely with us in implementing our shared vision.

### AELODAU'R BWRDD


#### BOARD MEMBERS

- Association of British Climbing Walls
- Association of Heads of Outdoor Education Centres
- Association of Mountaineering Instructors
- British Mountaineering Council (Cymru)
- British Mountain Guides
- Duke of Edinburgh's Award (Wales)
- Girlguiding Cymru
- North Wales Mountain Rescue Association
- Plas y Brenin (Mountain Training Trust)
- Outdoor Education Advisors' Panel for Wales
- Welsh Scout Council (Scout Association)
- Ramblers Cymru

### CYNGHORWYR AC ARSYLWYR

#### ADVISORS AND OBSERVERS

- Natural Resources Wales
- Y Bartneriaeth Awyr Agored / The Outdoor Partnership
- Mountain Training UK
- Joint Services Mountain Training Centre
- Institute of Outdoor Learning Cymru
- British Association of International Mountain Leaders
- Wales Activity Tourism Organisation



## 4. GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID WORKING WITH PARTNERS

### Y BARTNERIAETH AWYR AGORED A CHYMDEITHAS TWRISTIAETH GWEITHGAREDDAU CYMRU

Roedd Blwyddyn Antur 2016 yn cynnig cyfle unigryw i sefydliadau yng Nghymru gydweithio a hyrwyddo cyfres o egwyddorion craidd i Lywodraeth Cymru. Mae'r egwyddorion yn canolbwyntio ar yr awyr agored ac yn darparu sail ar gyfer polisi yn y dyfodol, ac maent yn alinio gyda nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015). Mae Mountain Training Cymru yn Rhanddeiliad Allweddol yn y fenter a bydd yn ymdrechu i gefnogi'r datblygiad drwy gydol cyfnod y strategaeth hon. Y 6 Egwyddor Allweddol yw:

### THE OUTDOOR PARTNERSHIP AND THE WALES ADVENTURE TOURISM ORGANISATION

The Year of Adventure in 2016 presented a unique opportunity for organisations in Wales to work together to promote a set of core principles to the Welsh Government. The principles focus on the outdoors and provide a foundation for future policy, and align to the goals of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. Mountain Training Cymru are a Key Stakeholder of the initiative and will strive to support the development throughout the period of this strategy. The 6 Key Principles are:

#### 1 CYMRU SY'N FWY CYFRIFOL YN RHYNGWLADOL A MWY CYFARTAL

Rydym eisiau strategaeth sy'n cael ei harwain gan y llywodraeth sy'n cefnogi camau gweithredu a chynhwysiant amgylcheddol yn y sector awyr agored.

#### 1 A GLOBALLY RESPONSIBLE AND MORE EQUAL WALES


We seek a government-level strategy that supports environmental action and inclusivity in the outdoor sector.

#### 2 CYMRU FFYNIANNUS

Ceisiwn berthynas gydweithio agos gyda'r llywodraeth er mwyn datblygu strategaethau hirdymor ar gyfer economi wledig lewyrchus.

#### 2 A PROSPEROUS WALES

We seek close working with government to develop long-term strategies for a thriving rural economy.



**3 CYMRU WYDN**  
Ceisiwn ffyrdd newydd o weithio sy'n cynyddu dealltwriaeth a gofal o natur er mwyn datblygu gwytnwch

**3 A RESILIENT WALES**  
We seek new ways of working that increase understanding and care of nature to build resilience.

**4 CYMRU IACHACH A MWY CYFARTAL, GYDA DIWYLLIANT EGNÏOL AC IAITH GYMRAEG FFYNIANNUS**  
Rydym yn ymrwmo i weithio gyda'r gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r llywodraeth i ysgogi newid cenedliadol i ffordd o fyw iachach, mwy egnïol.

**4 A HEALTHIER & MORE EQUAL WALES, WITH VIBRANT CULTURE AND THRIVING WELSH LANGUAGE**  
We commit to work with health, social services and government to inspire a generational change to more active, healthy living.

**5 CYMRU O GYMUNEDAU CYNHWYSOL**  
Rydym yn ceisio gweithio gyda phob maes o'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus i ddefnyddio sgiliau ein sector i feithrin gallu cymunedau, ysgolion a busnesau i ddatrys heriau gan ddefnyddio sgiliau a ddysgwyd yn yr awyr agored.

**5 A WALES OF COHESIVE COMMUNITIES**  
We seek to work with key areas of government and public sector to use our sector's skills to build communities, schools and businesses' ability to solve challenges using skills learned through the outdoors.

**6 CYMRU GYNALIADWY**  
Ceisiwn gyfleoedd sy'n profi bod newid trawsnewidiol, ar raddfa'r sector, i weithio cynaliadwy yn bosibl.

**6 A SUSTAINABLE WALES**  
We seek opportunities that prove that transformative, sector-scale change to sustainable working is possible.



## 5. CYDWEITHREDIAD COLLABORATION

### GWEITHIO GYDA SEFYDLIADAU PARTNER

Mae Mountain Training Cymru yn aelod o Mountain Training UK ac mae'n cydweithio'n agos gyda Mountain Training Lloegr, Mountain Training yr Alban, Mountain Training Gogledd Iwerddon a Bord Oiliúint Sléibe (Bwrdd Mountain Training Iwerddon) i sicrhau bod cymwysterau cyffredin yn cael eu datblygu, eu rheoli, eu cydnabod a'u gwerthfawrogi drwy'r DU gyfan ac Iwerddon.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Mountain Training Cymru wedi ymuno â nifer o sefydliadau allweddol i gydweithio ar nifer o brosiectau datblygu. Mae Mountain Training Cymru wedi derbyn cydnabyddiaeth yng Nghymru fel cynghorydd technegol i nifer o sefydliadau ar y ddarpariaeth cerdded, dringo creigiau a mynydda. Mae rhai o'r partneriaid hyn wedi cynnwys:

- **Cyngor Mynydda Prydain Cymru**
- **Swyddfa'r Met**
- **Parc Cenedlaethol Eryri**
- **Y Bartneriaeth Awyr Agored**
- **Cymdeithas Twristiaeth Gweithgareddau Cymru**
- **Cylchgrawn Trail**

### ATGYFNERTHU CYSYLLTIADAU

Bwriad Mountain Training Cymru yn ystod cyfnod y strategaeth hon yw datblygu cyfleoedd pellach i gydweithio gyda nifer o sefydliadau allweddol yng Nghymru, gyda ffocws penodol ar aelod sefydliadau'r bwrdd. Mae Mountain Training Cymru yn cydnabod y bydd cydweithrediad rhwng sefydliadau yn atgyfnerthu ein gweledigaeth ac yn darparu adnodd fwy i egwyddorion a rennir.

### WORKING WITH PARTNER ORGANISATIONS

Mountain Training Cymru is a member of Mountain Training UK and works closely with Mountain Training England, Mountain Training Scotland, Mountain Training Northern Ireland and Bord Oiliúint Sléibhe (Irish Mountain Training Board) to ensure that the shared qualifications are developed, managed, recognised and valued throughout the UK and Ireland.

Over the last few years Mountain Training Cymru have combined forces with several key organisations and collaborated on a range of development projects. Mountain Training Cymru has become recognised within Wales as technical advisor to many organisations on walking, rock climbing and mountaineering provision. Some of these partners have included:

- **British Mountaineering Council Cymru**
- **Met Office**
- **Snowdonia National Park**
- **Outdoor Partnership**
- **Wales Activity Tourism Organisation**
- **Trail Magazine**

### STRENGTHENING LINKS

Mountain Training Cymru's plan over the period of this strategy is to further develop collaboration opportunities with a range of key organisations within Wales, with particular focus on the board member organisations. Mountain Training Cymru recognises that collaboration between organisations will strengthen our vision and give a greater resource to shared principles.

## 6. BOARD GOVERNANCE LLYWODRAETHU'R BWRDD

### CYNALIADWYEDD ARIANNOL

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae Mountain Training Cymru wedi reoli'r incwm a ddaw gan Chwaraeon Cymru fel canran o gyfanswm ein hincwm. Mae datblygu dull marchnata strwythuredig, cynyddu nifer y darparwyr cynlluniau a chysiau hyfforddiant o amgylch Cymru wedi cyfrannu at fwy o gynaliadwyedd ariannol.

### FINANCIAL SUSTAINABILITY

Over the last five years Mountain Training Cymru has reduced the amount of income that comes from Sport Wales as a percentage of the total income. The development of structured marketing, increasing the number of training schemes and course providers around Wales have all contributed towards greater financial sustainability.



## YR IAITH GYMRAEG

Mae Mountain Training Cymru yn ymdrechu i wella ac ehangu ar ei defnydd o'r iaith Gymraeg i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Rydym yn ymrwymedig i'r gymuned Gymraeg yr ydym yn gweithredu ynddi a byddwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant. Bydd gwaith yn parhau i gyfieithu pob un o lawlyfrau'r cynllun i'r Gymraeg a bydd unrhyw geisiadau am ddarparwyr cyrsiau newydd yn cynnwys ffactor dymunol yn y broses gymeradwyo. Rydym yn awyddus i gynnig ystod o gyrsiau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ar hyd a lled Cymru a byddwn yn parhau i ymdrechu i ddatblygu ein polisi iaith Gymraeg ymhellach.

## WELSH LANGUAGE

Mountain Training Cymru strives to improve and expand the use of the Welsh language to ensure that it is treated no less favourably than the English Language. We are committed to the Welsh community we operate in and will promote the Welsh language, heritage and culture. Work will continue in translating all of the scheme handbooks into Welsh and for any new course provider applications the ability to work through the medium of Welsh will be considered a desirable factor. We aspire to having a range of courses on offer in the medium of Welsh throughout Wales and will continue to strive with the further development of our Welsh language policy.

## TEGWCH A CHYDRADDOLDEB

Mae Mountain Training Cymru yn ymrwymedig i'r egwyddor cyfle cyfartal. Y nod yw sicrhau bod darpar gyfranogwyr a chyfranogwyr gweithredol ac aelodau'r bwrdd yn derbyn triniaeth deg a chyfartal, waeth beth yw eu rhyw, oedran, anabledd, hil, crefydd neu gredo, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, aillbennu rhywedd neu statws cymdeithasol.

## EQUITY AND EQUALITY

Mountain Training Cymru is committed to the principle of equality of opportunity. The aim is to ensure that potential and active participants and board members are treated fairly and on an equal basis, irrespective of sex, age, disability, race, religion or belief, sexual orientation, pregnancy and maternity, marriage and civil partnership, gender reassignment or social status.

## Y COD LLYWODRAETHU DA (CYNGOR GWEITHREDU GWIRFODDOL CYMRU)




Bydd bwrdd Mountain Training Cymru yn mabwysiadu 6 egwyddor allweddol y cod llywodraethu da fel y'i hamlinellir yng 'Nghod Llywodraethu Da, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru':

1. Deall eu rôl
2. Sicrhau bod y diben sefydliadol yn cael ei gyflawni
3. Gweithio'n effeithiol fel unigolion a thîm
4. Arfer rheolaeth effeithiol
5. Ymddwyn gydag integreidd
6. Bod yn agored ac atebol

## GOOD GOVERNANCE CODE (WALES COUNCIL FOR VOLUNTARY ACTION)

The Mountain Training Cymru board will adopt the 6 key principles of the good governance code as outlined within the 'Wales Council for Voluntary Action, Good Governance Code':

1. Understanding their role
2. Ensuring delivery of organisational purpose
3. Working effectively both as individuals and a team
4. Exercising effective control
5. Behaving with integrity
6. Being open and accountable



## 7. OUR TRAINING MODEL • EIN MODEL HYFFORDDIANT

### Y LLWYBR

Mae dod yn arweinydd cymwys yn golygu meddu ar ystod o sgiliau amrywiol a phrofiad personol eang. Mae'n rhaid i bob un o'n darpar arweinwyr newydd gyfranogi yn ein gweithgareddau drwy ddysgu sy'n cael ei arwain ganddynt hwy eu hunain cyn dilyn y cwrs hyfforddiant swyddogol. Yna, mae'r cwrs hyfforddiant yn gwella eu profiad personol drwy strwythur ac arweiniad gan gyfarwyddwyr cymwys a phrofiadol iawn ein cwrs, sy'n helpu'r ymgeisydd i gam cyfuno lle bydd profiad pellach yn cael ei ennill cyn iddynt ddychwelyd i ymgymryd â'r asesiad.

### THE PATHWAY

Becoming a qualified leader requires a range of diverse skills and broad personal experience. Each and every one of our potential new leaders must participate with our activities through their own guided learning before undertaking the official training course. The training course then enhances their personal experience through structure and guidance from our highly qualified and experienced course directors who help guide the candidate into a consolidation phase where further experience is gained before they return to undertake the assessment.

### DATBLYGU PROFAD PERSONOL

Yn ystod ein hadolygiad o'n cymwysterau cerdded yn 2013, fe wnaethom nodi'r angen am gwrs cyflwyno strwythuredig ar gyfer cerdded bryniau a mynyddoedd. Arweiniodd hyn at greu'r cynllun Sgiliau Bryniau a Mynyddoedd, sy'n gwrs sy'n seiliedig ar y maes llafur ac sy'n cael ei ddarparu gan ein tiwtoriaid cymeradwy dros gyfnod o ddau ddiwrnod. Mae nifer o gyfranogwyr y cynllun yn awyddus i ddatblygu gwybodaeth ac maent eisiau datblygu eu hyder i'w galluogi i ennill eu profiad personol eu hunain cyn ymgymryd â'r cwrs hyfforddi arweinwyr. Un o'r prif wahaniaethau gyda'r cynllun hwn, o gymharu â'n cymwysterau, yw ei fod ar agor i bobl o 14 oed.

### DEVELOPING PERSONAL EXPERIENCE

During our review of our walking qualifications in 2013, we identified the need for a structured introduction course for hill and mountain walking. This resulted in the creation of the Hill & Mountain Skills scheme, which is a syllabus based course delivered by our approved tutors over a two day period. Many participants of the scheme are interested in developing their knowledge and want to build their confidence to allow them to gain their own personal experience prior to undertaking a leadership training course. One of the key differences with this scheme compared to our qualifications is that it is open to people from the age of 14 years.





## GWELLA ARWEINWYR A DATBLYGU CYMUNED

Mae'r broses o ennill cymwysterau arwain yn galw am amser, ymroddiad a ffocws. Mae gan Mountain Training UK Gymdeithas (Cymdeithas Mountain Training) y gall ymgeiswyr ymuno â hi sy'n rhoi cyfle i ddarpar arweinwyr ac arweinwyr presennol wella eu gwybodaeth, creu cysylltiadau cymunedol a datblygu ymhellach. Mae Mountain Training Cymru yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus y Gymdeithas yn awr ac mae'n annog ei ymgeiswyr i ymuno â'r Gymdeithas ac ar hyn o bryd mae 350 o'r ymgeiswyr yng Nghymru yn aelodau.

## ENHANCING LEADERS AND BUILDING COMMUNITY

The process of gaining a leadership qualification takes time, commitment and focus. Mountain Training UK has an Association (Mountain Training Association) that candidates can join which gives potential and existing leaders the opportunity to enhance their knowledge, build community links and further develop. Mountain Training Cymru regularly contributes towards the ongoing development of the Association and encourages its candidates to join and currently has 350 candidates in Wales who are members.

## DARPARWYR CYRSIAU

Mae darparwyr cyrsiau wedi'u lleoli ar hyd a lled Cymru, ac maent fel arfer yn agos at ardaloedd cerdded a dringo allweddol. Mae gan bob cwrs gyfarwyddwr enwebedig sy'n gweithio i'r darparwr i ddarparu maes llafur y cymhwyster ac sy'n meddu ar un neu fwy o'n cymwysterau, yn ogystal â phrofiad helaeth. Mae gan Mountain Training Cymru bolisi sicrwydd ansawdd a phroses sy'n cael ei chynnal yn flynyddol ar gyfer recriwtio ymgeiswyr newydd ac adolygu darparwyr presennol a darpariaeth cyfarwyddwyr.

## COURSE PROVIDERS

Our course providers are located around Wales usually in close proximity to the key walking and climbing areas. Each course has a nominated director who works for the provider in delivering the syllabus of the qualification and holds one or more of our qualifications and a wealth of experience. Mountain Training Cymru have a policy for quality assurance and a process which is run on an annual basis for recruiting new applicants and reviewing existing course providers and director provision.



# 8. DATBLYGIADAU ARFAETHEDIG: CERDDED PROPOSED DEVELOPMENTS: WALKING

## CENHADAETH GERDDED:

Datblygu rhwydwaith eang o ddarparwyr cysiau ar hyd a lled Cymru i hyrwyddo a darparu hyfforddiant o'r radd flaenaf.

## WALKING MISSION:

To develop a wide network of course providers around Wales to promote and deliver world-class training.

## CERDDED BRYNIAU

Cerdded brynau yw prif weithgaredd Mountain Training Cymru. Y cymhwyster gwreiddiol a ddatblygwyd yn ôl ym 1964 oedd y cynllun Arweinydd Mynydda. Dros amser, daeth y cynllun Arweinydd Mynydda yn fwyfwy poblogaidd fel meincnod y safonau hyfforddiant i arweinwyr sy'n dymuno datblygu eu sgiliau i arwain eraill.


Erbyn 2016 roedd Mountain Training Cymru wedi gweld 2480 o bobl yn llwyddo i ennill y wobr Arweinydd Mynydda. Mae Mountain Training Cymru wedi ymateb i anghenion y sector awyr agored, sy'n newid yn gyson, ac mae wedi datblygu ystod o gyfleoedd hyfforddiant ac arweinyddiaeth i weddu'r amgylcheddau cerdded amrywiol sy'n bodoli – tir isel, rhostir a mynyddoedd.

## HILL WALKING

Hill walking is the primary activity within Mountain Training Cymru. The original qualification developed back in 1964 was the Mountain Leader scheme. Over time the Mountain Leader scheme gained popularity as the benchmark in training standards for leaders wishing to develop their skills to lead others.

By 2016 Mountain Training Cymru had seen 2480 people successfully gain the Mountain Leader award. Mountain Training Cymru has reacted to the ever-evolving needs of the outdoor sector and has developed a range of training and leadership opportunities to suit the variety of walking environments which exist – lowland, moorland and mountain.

## CYNLLUNIAU CERDDED WALKING SCHEMES



## EFFAITH

Dangosodd yr arolwg o aelodaeth Cymdeithas Mountain Training yn 2014 bod yr aelodau hynny a oedd wedi cwblhau ein cyrsiau asesu arweinwyr yn mynd ymlaen i ddylanwadu ar 239 o bobl bob blwyddyn ar gyfartaledd mewn gweithgareddau cerdded bryniau, dringo creigiau a mynydda.

Yn ystod 2015 yn unig, gwelodd Mountain Training Cymru 288 o arweinwyr yn cwblhau gwobr arweinydd cerdded (Arweinydd Rhostir, 31; Arweinydd Bryniau a Rhostir, 35; Arweinydd Mynydda, 222) a disgwylir i'w heffaith fod yn agos at 70,000 o gyfranogwyr yn ystod 2016.

## IMPACT

The Mountain Training Association membership survey in 2014 showed that on average members who had completed our leadership assessment courses went on to influence an average of 239 people each year in hill walking, rock climbing and mountaineering activities.

Within 2015 alone Mountain Training Cymru had 288 leaders successfully complete a walking leadership award (Lowland Leader, 31; Hill and Moorland Leader, 35; Mountain Leader, 222) and their expected impact will be close to 70,000 participants during 2016.

## NODAU CERDDED 1

Cynyddu nifer y cerddwyr bryniau newydd sy'n ymgymryd â hyfforddiant sgiliau cerdded bryniau ffurfiol (y cynllun Sgiliau Bryniau a Mynyddoedd).



### MESUR CYNNYDD

#### TARGETED 1: CERDDED

Blwyddyn 1: 248  
Blwyddyn 2: 260  
Blwyddyn 3: 278  
Blwyddyn 4: 297  
Blwyddyn 5: 317

Cyfanswm: 1400 o gyfranogwyr Sgiliau Bryniau a Mynyddoedd erbyn 2021.

## WALKING MISSION GOAL 1

Increase the number of new hill walkers undertaking formal hill walking skills training (Hill & Mountain Skills scheme).



### MEASURING PROGRESS

#### TARGET 1: WALKING

Year 1: 248  
Year 2: 260  
Year 3: 278  
Year 4: 297  
Year 5: 317

Total: 1400 Hill & Mountain Skills participants by 2021.

## NODAU CERDDED 2

Cynyddu nifer yr arweinwyr cerdded cymwys drwy ein tri chymhwyster lefelau amrywiol:

- **Targed 2a:** Arweinydd Tir isel
- **Targed 2b:** Arweinydd Bryniau a Rhostir
- **Targed 2c:** Arweinydd Mynydda



### MESUR CYNNYDD

Cynyddu nifer yr arweinwyr cerdded cymwys drwy ein tri chymhwyster lefelau amrywiol:

#### Targed 2a: Arweinydd Tir isel

Bl1: 112, Bl2: 117, Bl3: 125, Bl4: 134, Bl5: 143, C: 631

#### Targed 2a: Arweinydd Bryniau a Rhostir

Bl 1: 38, Bl 2: 39, Bl 3: 40, Bl 4: 42, Bl 5: 44, C: 203

#### Targed 2a: Arweinydd Mynydda

Bl 1: 294, Bl 2: 309, Bl 3: 324, Bl 4: 340, Bl 5: 357, C: 1624

Cyfanswm: 2458 o arweinwyr cerdded cymwys erbyn 2021.

## WALKING MISSION GOAL 2

Increase the number of qualified walking leaders through our three different levels of qualifications:

- **Target 2a:** Lowland Leader
- **Target 2b:** Hill and Moorland Leader
- **Target 2c:** Mountain Leader



### MEASURING PROGRESS

Increase the number of qualified walking leaders through our three different levels of qualifications:

#### Target 2a: Lowland Leader

Yr1: 112, Yr2: 117, Yr3: 125, Yr4: 134, Yr5: 143, T: 631

#### Target 2b: Hill and Moorland Leader

Yr1: 38, Yr2: 39, Yr3: 40, Yr4: 42, Yr5: 44, T: 203

#### Target 2c: Mountain Leader

Yr1: 294, Yr2: 309, Yr3: 324, Yr4: 340, Yr5: 357, T: 1624

Total: 2458 qualified walking leaders by 2021

# 9. DATBLYGIADAU ARFAETHEDIG: DRINGO CREIGIAU PROPOSED DEVELOPMENTS: ROCK CLIMBING


## CENHADAETH DRINGO CREIGIAU:

Datblygu rhwydwaith eang o ddarparwyr cyrsiau ar hyd a lled Cymru i hybu a darparu hyfforddiant o'r radd flaenaf.

## ROCK CLIMBING MISSION:

To develop a wide network of course providers around Wales to promote and deliver world-class training.

## CYNLLUNIAU DRINGO CREIGIAU ROCK CLIMBING SCHEMES



Key

- Direct Entry
- Leadership Awards
- Recommended

## **GWEITHGAREDDAU DRINGO CREIGIAU**

Mae dwy ddisgyblaeth sy'n rhan o Ddringo Creigiau; artiffisial a naturiol. Mae dringo artiffisial yn canolbwyntio ar ddefnyddio waliau dringo pwrpasol (dan do fel arfer) ac mae dringo naturiol yn digwydd ar greigiau a chlegyrau. Mae gennym ddau gymhwyster ar gyfer goruchwylio dringo artiffisial: y Wobr Wal Ddringo a'r Wobr Arwain Wal Ddringo.

Mae Cymru ar fap y byd ar gyfer dringo naturiol ac mae nifer sylweddol o leoliadau dringo ar gael yng Nghymru sy'n amrywio yn eu lefelau anhawster ac arddull. Mae nifer y bobl sy'n ymgymryd â dringo artiffisial yn cynyddu, gyda chyfleusterau cyhoeddus mawr ar gael ger ardaloedd â phoblogaethau mawr. Mae poblogrwydd dringo artiffisial yn deillio o'r mynediad rhwydd pan fydd angen llai o amser a gwybodaeth ac nid yw'r tywydd yn ffactor!

## **ROCK CLIMBING ACTIVITIES**

Under Rock Climbing there are two disciplines; artificial and natural. Artificial climbing is focused on the use of purpose built climbing walls (typically indoors) and natural climbing occurs on cliffs and crags. We have two qualifications for the supervision of artificial climbing: The Climbing Wall Award and the Climbing Wall Leading Award. For natural climbing we have the Single Pitch Award.

Wales is on the world map for natural climbing and boasts a significant number of climbing venues of varying degrees of difficulty and style. The uptake of artificial climbing is on the increase with large public facilities available near mass populated areas. The popularity of artificial climbing comes from the ease of access where less time and knowledge are required and where the weather is not a factor!

## **ADOLYGIAD O WOBRAU DRINGO CREIGIAU 2016-2018**

Mewn partneriaeth â byrddau cenedlaethol eraill Mountain Training yn y DU ac Iwerddon, mae Mountain Training Cymru wedi dechrau'r broses o adolygu'r cynlluniau presennol drwy ymgynghoriad cyhoeddus eang i sefydlu a yw'n bosibl nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ac i sicrhau bod y cynlluniau yn gadarn ac yn addas ar gyfer gofynion y cyhoedd.

## **ROCK CLIMBING AWARDS REVIEW 2016-2018**

In partnership with the other national Mountain Training boards of the UK and Ireland, Mountain Training Cymru has started the process of reviewing the current schemes through wide public consultation to establish if any gaps in provision can be identified and to ensure that the schemes are robust and suitable for the demands of the public.

## **EFFAITH**

Dangosodd yr arolwg o aelodaeth Cymdeithas Mountain Training yn 2014 bod yr aelodau hynny a oedd wedi cwblhau ein cyrsiau asesu arweinwyr yn mynd ymlaen i ddylanwadu ar 239 o bobl bob blwyddyn ar gyfartaledd mewn gweithgareddau cerdded bryniau, dringo creigiau a mynydda.

Yn ystod 2015 yn unig, gwelodd Mountain Training Cymru 157 o arweinwyr yn llwyddo i gwblhau gwobr arweinydd dringo (Gwobr Wal Ddringo, 41; Gwobr Dringen Sengl, 110; Gwobr Arwain Wal Ddringo, 6) a disgwylir i'w heffaith fod yn agos at 37,000 o gyfranogwyr yn ystod 2016.

## **IMPACT**

The Mountain Training Association membership survey in 2014 showed that on average members who had completed our leadership assessment courses went on to influence an average of 239 people each year in hill walking, rock climbing and mountaineering activities.

Within 2015 alone Mountain Training Cymru had 157 leaders successfully complete a climbing leadership award (Climbing Wall Award, 41; Single Pitch Award, 110; Climbing Wall leading Award, 6) and their expected impact will be close to 37,000 participants during 2016.

## NODAU DDRINGO 1

Adolygu'r cymwysterau dringo presennol ac archwilio a oes unrhyw fylchau'n bodoli yn y ddarpariaeth.



### MESUR CYNNYDD

TARGET 1: DDRINGO. Cwblhau'r adolygiad a gweithredu unrhyw ddatblygiadau erbyn 2018.

## CLIMBING MISSION GOAL 1

To review the current climbing qualifications and explore if any gaps in provision exist.



### MEASURING PROGRESS

TARGET 1: CLIMBING. Completing the review and implementing any development by 2018.

## NODAU DDRINGO 2

Cynyddu nifer yr hyfforddwyr dringo cymwys:

- **Target 2a:** Gwobr Wal Ddringo
- **Target 2b:** Gwobr Arwain Wal Ddringo
- **Target 2c:** Gwobr Dringen Sengl



### MESUR CYNNYDD

Cynyddu nifer yr hyfforddwyr dringo cymwys:

**Target 2a: Gwobr Wal Ddringo**

BI1: 62, BI2: 65, BI3: 68, BI4: 71, BI5: 74, C: 340

**Target 2b: Gwobr Arwain Wal Ddringo**

BI1: 15, BI2: 16, BI3: 17, BI4: 19, BI5: 20, C: 87

**Target 2c: Gwobr Dringen Sengl**

BI1: 131, BI2: 137, BI3: 144, BI4: 151, BI5: 158, C: 721

Cyfanswm: 1148 o arweinwyr ddringo cymwys erbyn 2021

## CLIMBING MISSION GOAL 2

Increase the number of qualified climbing instructors:

- **Target 2a:** Climbing Wall Award
- **Target 2b:** Climbing Wall Leading Award
- **Target 2c:** Single Pitch Award



### MEASURING PROGRESS

Increase the number of qualified climbing instructors:

**Target 2a: Climbing Wall Award**

Yr1: 62, Yr2: 65, Yr3: 68, Yr4: 71, Yr5: 74, T: 340

**Target 2b: Climbing Wall Leading Award**

Yr1: 15, Yr2: 16, Yr3: 17, Yr4: 19, Yr5: 20, T: 87

**Target 2c: Single Pitch Award**

Yr1: 131, Yr2: 137, Yr3: 144, Yr4: 151, Yr5: 158, T: 721

**Total: 1148 qualified climbing leaders by 2021**



Published by Mountain Training Cymru  
Siabod Cottage, Capel Curig, LL24 0ES  
**T** 01690 720 272  
**E** [bryn@mountain-training.org](mailto:bryn@mountain-training.org)  
**W** [www.mountain-training.org](http://www.mountain-training.org)

Designed by: [www.dragondesignwales.com](http://www.dragondesignwales.com)